# Eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau a gweithio gyda nhw i asesu mathau addas o eiriolaeth mewn sefyllfaoedd penodol. Mae hefyd yn cynnwys mynd ati eich hunan i eirioli gydag unigolion yn ogystal â chefnogi unigolion i gael mynediad at eiriolaeth annibynnol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu gallu unigolion i ddefnyddio systemau a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
2. esbonio ac egluro hawl unigolyn i gael mynediad at eiriolaeth annibynnol neu eich defnyddio chi neu eraill mewn rôl eiriolaeth
3. cynorthwyo unigolion i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau eirioli annibynnol
4. cynorthwyo unigolion i ddewis y gwasanaeth neu'r eiriolwr annibynnol mwyaf addas
5. cadarnhau eich bod chi neu ddarpar eiriolwyr eraill yn addas i weithredu ar ran unigolion
6. myfyrio ar unrhyw brofiadau yn y gorffennol a allai ddylanwadu ar yr eiriolwr a ddewisir
7. nodi ac asesu'r math o eiriolaeth sy'n cyd-fynd orau â dewisiadau, anghenion ac amgylchiadau unigolion
8. canfod a yw unigolion yn dymuno i chi weithredu fel eiriolwr ar eu rhan mewn sefyllfa benodol
9. mynd ati gydag unigolion i egluro'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer eiriolaeth a chanlyniadau posibl eraill
10. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau
11. cynorthwyo unigolion i ddeall cysyniadau pŵer a grymuso mewn gwahanol sefyllfaoedd
12. egluro prosesau a gweithdrefnau i helpu unigolion i gymryd rhan mor llawn â phosibl
13. gweithio gydag unigolion i baratoi gwybodaeth sy'n cynrychioli eu buddiannau gorau
14. cynorthwyo unigolion i gymryd rhan mewn prosesau i'r graddau maent yn dymuno ac yn gallu
15. helpu unigolion i friffio eiriolwyr annibynnol
16. cyflwyno achos gydag unigolion neu ar eu rhan er mwyn gyflawni'r canlyniadau a ddymunir
17. mynd ati gyda'r unigolyn i gadarnhau canlyniadau cymryd rhan ac unrhyw benderfyniadau a wnaed

18. cyfathrebu canlyniadau eiriolaeth mewn ffyrdd y gall unigolion eu deall
19. cyflawni'r rôl a'r cyfrifoldebau rydych chi wedi cytuno arnynt yn ystod trefniadau eirioli
20. gwneud penderfyniadau proffesiynol am wrthdaro rhwng buddiannau a allai godi petaech yn gweithredu fel eiriolwr
21. herio systemau neu brosesau sy'n arwain at rwystrau rhag cyfranogi
22. adolygu effeithiolrwydd y cymorth a roddir i unigolion
23. adolygu effeithiolrwydd eiriolaeth gydag unigolion
24. cefnogi unigolion i adolygu effeithiolrwydd eiriolaeth annibynnol
25. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
26. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sicrhau bod gwybodaeth ar gael i unigolion ac eraill
2. egwyddorion a dulliau grymuso
3. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
4. yr ystod o wasanaethau ac adnoddau eirioli lleol a chenedlaethol, a sut mae cael gafael arnynt
5. egwyddorion a dulliau eirioli
6. sut mae cyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth i wahanol gynulleidfaoedd mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai digidol
7. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
8. agweddau at ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y gwasanaethau eirioli sydd eu hangen
10. sut mae delio â cheisiadau am eiriolaeth mewn ffordd sy'n cynorthwyo rheoleiddio emosiynol
11. dylanwad diwylliant a chefndir ar y gwasanaethau eirioli mae unigolion eu hangen ac yn gofyn amdanynt
12. sut mae derbyn, monitro a gwerthuso adborth am wasanaethau eirioli
13. sut mae cefnogi unigolion i fynegi pryderon a defnyddio gweithdrefnau cwyno
14. y ffactorau y mae’n rhaid eu hystyried wrth drafod a chytuno ar newidiadau i eiriolaeth
15. theorïau sy’n berthnasol i eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan
18. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan, a sut i fynd i’r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Eirioli gydag unigolion ac ar eu rhan

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD49 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Eirioli, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |